# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

### PENNOD 1

UNO PRIF ARDALOEDD YN WIRFODDOL

*Hwyluso uno*

**128 Dyletswyddau ar gynghorau sy’n uno i hwyluso trosglwyddo**

(1) Rhaid i gyngor sy’n uno—

(a) at ddibenion yr uno, gydweithredu â Gweinidogion Cymru, y cyngor arall neu’r cynghorau eraill sy’n uno ac unrhyw berson arall sy’n arfer swyddogaethau mewn perthynas â’r uno, a

(b) cymryd pob cam rhesymol—

(i) i hwyluso trosglwyddo ei swyddogaethau, ei staff, ei eiddo, ei hawliau a’i atebolrwyddau i’r prif gyngor newydd mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon, a

(ii) i sicrhau bod y prif gyngor newydd a’i staff mewn sefyllfa i gyflawni swyddogaethau’r prif gyngor newydd yn effeithiol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy’n uno i gymryd, neu i beidio â chymryd, unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben cyflawni dyletswydd y cyngor o dan yr adran hon.